LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES
Gwirfoddoli
Volunteering
GWANWYN 2026 | RHIYFYN 22

# LLAIS GWIRFODDOLWYR



## Diweddariadau

Yn y rhifyn hwn o Lais y Gwirfoddolwyr, rydym yn rhannu diweddariadau am ein prosiectau ac yn mynegi ein diolch o galon am y tasgau sydd wedi'u cwblhau.

Ers ein rhifyn diwethaf, rydym yn falch iawn o groesawu saith gwirfoddolwr newydd i'n cymuned. Mae aelodau ymroddedig ein tîm, Eilir, Cledan a Thea, wedi bod yn brysur yn trefnu digwyddiad cyffrous ar gyfer Wythnos y Gwirfoddolwyr 2026 eleni.

I ddarganfod enwau ein gwirfoddolwyr newydd a dysgu mwy am y digwyddiad sydd ar ddod, trowch i dudalen 3.

Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys newyddion o'r wythnosau diwethaf, gan gynnwys hanes y daith gerdded gyda Richard Sugget, hanesydd pensaernïol y Comisiwn Brenhinol.

## Meddyliau'r ysgrifennwr:

Mae'r gwirfoddolwr Lynne Blanchfield yn croesawu dyfodiad y gwanwyn ac yn gwahodd ein cymuned o wirfoddolwyr i rannu eu hysgrifennu creadigol a'u barddoniaeth, ynghyd â ffotograff, oll wedi'u hysbrydoli gan y thema Hapusrwydd y Gwanwyn (gweler tudalennau 4-5). Cafodd Lynne ei hysbrydoli gan sgwrs ddiweddar yn LLGC a roddwyd gan John Barnie am ei gasgliad barddoniaeth, *Afterlives*. Trafododd sut y gall delweddau danio geiriau, a dyna fu'r ysbrydoliaeth ar gyfer thema'r alwad hon am gyfraniadau gan wirfoddolwyr.

Yn ogystal, cynhaliodd Lynne gyfweliad â Churadur Ffotograffiaeth y Llyfrgell, Wil Troughton, fel erthygl ffarwel cyn ei ymddeoliad yr haf hwn (gweler tudalennau 6-7).

# Newyddion:

Cwblhawyd cyfraniadau'r gwirfoddolwyr at Ddeiseb Heddwch Merched Cymru yn ôl ym mis Mawrth, a hoffem estyn ein diolch diffuant i'r holl wirfoddolwyr a fu'n rhan o'r gwaith. Bu eu hymroddiad a'u hymrwymiad yn allweddol i lwyddiant y prosiect hwn.

Bu nifer o wirfoddolwyr hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth brofi gwefan newydd Clip Cymru, gan helpu i nodi problemau a darparu adborth gwerthfawr ar ddefnyddioldeb a hygyrchedd. Diolch i bawb a gymerodd ran yn profi'r wefan sy'n dal i gael ei datblygu.

Cyfrannodd y gwirfoddolwyr Lynne M, Sue ac Esme at waith ymchwil prosiect Archif Menywod Cymru, drwy chwilio am wybodaeth ynghylch polisïau cydraddoldeb a gyhoeddwyd yn y *Western Mail* a ddaeth i rym yn ystod y 1970au. Mae gwirfoddolwyr hefyd yn cefnogi'r Adran Casgliadau Unigryw gyda thasg newydd o gofnodi gwybodaeth am enwau ffermydd Cymru o gofnodion printiedig yn yr Uned Mapiau, yn ogystal â threfnu cofnodion catalog llawysgrif o fapiau rheilffordd yn ôl dilyniannau rhifau cofnodion llyfrau.

Ar ddechrau mis Mai, gwahoddodd y Comisiwn Brenhinol ein cymuned o wirfoddolwyr ar daith gerdded hanesyddol ar hyd prom Aberystwyth, dan arweiniad yr hanesydd pensaernïol Richard Suggett. Roedden ni'n ffodus iawn gyda'r tywydd: roedd yr haul yn disgleirio ac roedd y môr yn dawel. Dysgodd gwirfoddolwyr o'r Llyfrgell a'r Comisiwn Brenhinol am yr adeiladau hanesyddol trawiadol sydd ar hyd lan y môr, gan ddechrau wrth y Gofeb Ryfel a gorffen - yn draddodiadol - drwy gicio'r bar ym mhen pellaf y promenâd. Dyma beth sydd gan ein gwirfoddolwyr i'w rannu am eu profiad:

**"Wedi mwynhau a dysgu rhagor am pensaernïaeth y prom yn Aberystwyth. Diddorol dros ben."**

**"Wnes i fwynhau'r daith yn fawr iawn. Roedd yn braf iawn cael bod gyda'r gwirfoddolwyr eraill, staff y Llyfrgell a staff y Comisiwn y tu allan i'r Llyfrgell ar ddiwrnod mor braf. "**



# Digwyddiadau...

Mae Wythnos y Gwirfoddolwyr (1-7 Mehefin) yn ddathliad blynyddol arbennig sy'n tynnu sylw at y cyfraniadau anhygoel a wneir gan wirfoddolwyr. Mae'n gyfle i'r Llyfrgell gydnabod, gwerthfawrogi a mynegi diolch i'r rhai sy'n rhoi o'u hamser a'u sgiliau'n hael i helpu eraill ac i gefnogi achosion pwysig yn eu cymunedau.

Eleni, rydym wedi trefnu seminar a thaith o amgylch arddangosfa Lens y Curadur: Gyrfa o Gasglu gyda Curadur Ffotograffiaeth, Wil Troughton. Ymunwch â ni am daith arddangosfa ddiddorol, sgwrs graff a sesiwn holi ac ateb, gyda te a chacen i'w mwynhau.

**Pryd?** Dydd Mawrth 9fed o Mehefin,13:30-15:00
**Ble?** Ystafell y Cyngor, LLGC

Am ragor o wybodaeth am y digwyddiadau hyn, cysylltwch â'r tîm gwirfoddoli **gwirfoddoli@llyfrgell.cymru** neu galwch heibio'r swyddfa am sgwrs.

## Clwb Sgwrsio

**Os ydych chi'n dysgu Cymraeg, mae cyfle o hyd i ymarfer y Gymraeg mewn awyrgylch cyfeillgar ac anffurfiol.**

**Mae'r clwb yn cwrdd bob dydd Llun rhwng 11:00 – 11:45 yng Nghaffi Pen Dinas.**

**Cysylltwch ag Eilir am fwy o wybodaeth ynglŷn â chofrestru: eilir.evans@llyfrgell.cymru**

## Ystadegau Cyfredol

**Cyfanswm y gwirfoddolwyr:**
81 o wirfoddolwyr

**Oriau gwirfoddoli:**
Mawrth: 959, Ebrill: 772, Mai: 577

**Prosiectau a thasgau ar y gweill:**
Mae 16 o brosiectau a thasgau ar y gweill ar hyn o bryd, ac mae staff y Llyfrgell yn parhau i chwilio am gyfleoedd hyd yn oed mwy cyffrous.

## Croeso!

Hoffem estyn croeso cynnes i'n gwirfoddolwyr newydd: **Mary, Archie, Grace, Maia, Olu, Lela, Howard.**




# HAPUSRWYDD Y GWANWYN

**I groesawu tymor y gwanwyn, gwahoddodd Lynne Blanchfield wirfoddolwyr i fanteisio ar eu creadigrwydd drwy greu a chyflwyno gweithiau gwreiddiol, gan roi cyfle i'r gymuned fynegi ei hun drwy gelfyddyd ysgrifennu. Dyma beth sydd ganddi i'w ddweud amdani hi ei hun a'i hangerdd dros ysgrifennu creadigol:**

Mae gen i gariad tuag at ysgrifennu creadigol a barddoniaeth ers yn blentyn. Astudiais yn UCW Aberystwyth yn y 1970au a'r 80au, lle enillais fy BA, MA a PhD, gan arbenigo mewn barddoniaeth Saesneg Canol Oesoedd. Yna, es i ymlaen i gael gyrfa werth chweil am 16 mlynedd i'r Brifysgol Agored yng Nghaergrawnt, gan addysgu llenyddiaeth Saesneg i oedolion a gweithio mewn amrywiaeth o rolau academaidd. Ers 2022, rwyf wedi bod yn aelod o Ysgol Farddol yr Holl Fyd, gan ddatblygu fy sgiliau mewn ysgrifennu barddoniaeth mewn cynghanedd (arddull o batrymu sain mewn mesurau caeth sy'n unigryw i'r Gymraeg). Yn 2024, ar ôl pasio arholiadau yn arbenigo mewn barddoniaeth Gymraeg, cefais fy nerbyn i'r Orsedd. Ers dychwelyd i Aberystwyth yn 2013, dw i wedi gwirfoddoli ar nifer o brosiectau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ar hyn o bryd yn darparu isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar gyfer recordiadau o sgyrsiau'r Drwm ar sianel YouTube y Llyfrgell.

Ar ôl pasio arholiadau 'Dysgu Cymraeg i Oedolion' ar lefelau Sylfaen hyd at Hyfedredd, dw i'n awyddus i gefnogi dysgwyr eraill. Y neges allweddol yma yw 'os gallaf i ei wneud, gallwch chi ei wneud!'. Ysgrifennais y gerdd isod yn 'Cerdd Rydd gynganeddol'. Mae gweld blodau almon pinc bob amser yn dwyn i gof fy mhlentyndod ym Mhrestatyn, cyn gorfod gadael Cymru. Nid yw barddoniaeth yn apelio at bawb, wrth gwrs. Fodd bynnag, gydag Aberystwyth bellach wedi'i chydnabod fel 'Dinas Llên UNESCO', awgrymais gynnal cystadleuaeth lenyddol yn y cylchlythyr hwn fel ffordd o rannu fy angerdd dros farddoniaeth ac ysgrifennu creadigol gyda chyd-wirfoddolwyr.
Felly rhowch gynnig arni a dal ati!

**Rwy'n meddwl amdanat, fy Mhrestatyn.**
**Hogan fach, yn yr awyr iach am oriau;**
**dringais, â'm llais yn canu'n llon,**
**ar y pren almon.**
**Dyna fy ffau llonydd –**
**ymhlith y dail gorweddais;**
**syllais, â si'r blodau almon pinc,**
**ar yr haul yn wincio**
**trwy'r petalau o'r awyr las,**
**ag eisiau iddyn nhw barhau am byth.**



# PEN BLWYDD Y CYTHRAUL[1]

**Cof y blynyddoedd mewn *carrier bags***
**yn mynnu pob modfedd yn y sied anghofiedig**
**a llwch gaeafau tywyll yn llwydo'r trugareddau**
**trwy'r trwch ar y silffoedd yn gwegian;**
**yn dwmbwr dambar mae'r bocsys gorlifol yn hawlio'r llawr.**

**A nawr, dyma fi o'r newydd.**
**Yr heulwen yn datgelu bwrdd clir.**
**Y brwshys yn dwt mewn pot, a'r paent wrth fy mhen-elin.**
**Papur glân o'm blaen.**
**Dw i'n barod i ddechrau.**



---

[1] **Ymadrodd am 'spring cleaning day' mewn rhai ardaloedd.**



# CWRDD AG AELOD O STAFF!

**Cafodd Lynne sgwrs gyda Curadur Ffotograffiaeth y Llyfrgell, Wil Troughton, cyn ei ymddeoliad.**

Yn ôl cyflwyniad Rhian Gibson i sgwrs Wil ar 'Lost Aberystwyth', Wil yw "Bruce Springsteen, neu hyd yn oed Oasis Llyfrgell Genedlaethol Cymru - mae ei gigs yn gwerthu allan yn gyflym iawn, ac mae rhestr aros bob amser."

Mae llawer o bobl wedi dweud pa mor drist ydyn nhw o golli Wil i'w ymddeoliad haeddiannol ym mis Gorffennaf 2026, ar ôl gyrfa rhychwantu rhyw 34 mlynedd. Roedd yn fraint i mi gyfweld â Wil, ac yn yr erthygl hon mae'n myfyrio ar rai o uchafbwyntiau ei gyfnod yma, ar Aberystwyth ei hun, ac yn edrych ymlaen at ddyfodol y casgliadau a rôl gwirfoddolwyr wrth helpu i'w cadw a'u hyrwyddo.

Mae angerdd ac ymroddiad Wil i'r casgliadau ffotograffiaeth yn disgleirio drwy'r cyfweliad yma, ei lyfrau a'i sgyrsiau. Dechreuodd yn y Llyfrgell Genedlaethol ar 13 Ionawr 1992, rhywbeth y mae'n ei gofio'n dda. Roedd yn Guradur Cynorthwyol, er yn rhyfedd ddigon doedd dim swydd 'Curadur' ar y pryd: "dyna sut roedd pethau'n gweithio!".

Mae'r casgliadau wedi tyfu'n gyflym yn ystod ei gyfnod ef: dechreuodd ar ryw 900 o albymau lluniau, ac hyd yn hyn mae tua 7,200: saith gwaith y maint yr oedd! Mae tua 20-30,000 o ffotograffau'r flwyddyn yn cael eu derbyn yn y Llyfrgell. A dyn ni ddim yn sôn am brintiau papur yn unig ond fformatau fel sleidiau, negatifau, tapiau a CDs mae'n rhaid eu storio, eu hadfer, eu catalogio a'u gwneud yn hygyrch. Mae llawer o hyn yn ddeunydd corfforaethol. Pan ddaeth ffotograffiaeth ddigidol, mae llawer o ffotograffau papur wedi cael eu rhoi i gasgliadau wedi'u curadu fel yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae lluniau o gwmnïau fel Bwrdd Twristiaeth Cymru ar ei hôl hi'n eithaf cyflym, felly maen nhw'n falch o'u trosglwyddo ar gyfer ymchwil hanesyddol.
Fodd bynnag, mae digideiddio yn 'gleddyf daufiniog': mae faint fydd o gwmpas ymhen 50 mlynedd yn destun dadl wrth i dechnoleg oddiweddyd gallu llyfrgell i 'ddarllen' hen galedwedd fel 'floppy disks' (cofio rheiny?!). Mae hyd yn oed rhai o'r CDs newydd eisoes wedi'u difrodi.

Pan ofynnais iddo a allai ddewis hoff lun neu gasgliad o gynifer, dewisodd Wil brosiect cynnar: casgliad Arthur Lewis sy'n rhychwantu'r 1890au hyd at ddiwedd y 1930au. Ond mae hefyd yn mwynhau "ymchwilio i Geoff Charles" oherwydd harddwch ei dechneg a'i ffocws ar y pwnc. Mae Wil yn falch iawn o'r ffordd y mae'r archif ffotograffig gyfan wedi datblygu, gan ei bod yn gynhwysfawr ac yn gynhwysol, gan brofi bod pwysigrwydd casgliad yn tyfu dros amser a'i bod yn hanfodol cydnabod hynny.

Cafodd Wil ei eni a'i fagu yn Aberystwyth, ac mae'n uchel ei barch am ei lyfrau a'i sgyrsiau ar ei hanes a'i phobl. Mae'n mynegi ei fod yn ffafrio ysgrifennu ac ymchwilio yn hytrach na ddarlithio oherwydd "dyna lle mae'r syrpreisys yn codi". Ond mae'n mwynhau cynllunio darlithoedd ac yn dewis y delweddau gorau (o blith miloedd) i gyd-fynd â'r pwnc. Mae'n dechrau gydag un neu ddau o "hanfodolion" ac yna mae'r gweddill yn "disgyn i'w lle" yn hyfryd, fel mae'i gynulleidfaoedd yn gwybod yn dda.

Mae llawer o ffocws y ddau weithgaredd hyn ar beth dyn ni wedi'i golli yn Aberystwyth. Wrth edrych yn ôl ar anterth Aberystwyth, mae'n dweud "roedd Great Darkgate Street arfer bod yn llawn" o siopau fel Woolworths, "a nawr mae siopau gwag. Mae'n drueni bod y dref wedi syrthio mor bell ar ei hôl hi nawr", a theimlo ein bod ni wedi "colli allan mewn sawl ffordd." Gan adael y presennol pryderus o'r neilltu, mae Wil yn optimistig bydd Aber yn gwella. Bydd yr Hen Goleg "yn llwyddiant mawr", a gyda'i nifer o gyfleusterau artistig, creadigol, hanesyddol ac addysgol wedi'u cynllunio bydd yn darparu rhywle y gall teuluoedd cyfan fynd i wneud pethau diddorol pan fydd hi'n bwrw glaw, a hefyd pan fydd yr Amgueddfa'n ailagor ei drysau tua'r un pryd. Bydd yn bywiogi'r stryd fawr hefyd, ac yn denu pobl yn ôl i Aberystwyth. Mae Wil yn awyddus iawn i weld y Putting Green yn dod yn ôl! Roedd e'n arfer treulio oriau yna pan oedd yn blentyn.

Pan ofynnais beth fyddai ei weithgaredd 'nawr am rywbeth hollol wahanol', dewisodd wylio adar, rhywbeth o ddiddordeb mawr iddo, felly mae'n edrych ymlaen at gael yr amser i'w ddilyn a'i ehangu y tu hwnt i gyfyngiadau ei ardd ei hun – lle mae ei gath yn cyfyngu ar yr ystod o rywogaethau ei fod yn gallu eu harsylwi! Mae bod yn agos at goetir, llwybrau arfordirol a mynyddoedd yn fudd mawr o fyw yn Aberystwyth – yn enwedig i ffotograffwyr.

Pan ofynnais iddo'n ddigywilydd am 'sgŵp' ar gyfer Llais y Gwirfoddolwyr - am ffaith bod dim llawer o bobl yn ei gwybod - daeth ei ateb yn ddi-betrus: "Dw i wedi rhedeg Marathon Ultra Reykjavík": hynny yw, 33.5 milltir neu 55 cilomedr! Ymgymerodd â'r her hon gyda dau ffrind ym mis Mehefin 2003, gan ddechrau o ardal folcanig hynafol Landmannalaugar, mewn tywydd da ond yn rhedeg trwy dirwedd amrywiol iawn o byllau mwd yn berwi a chreigiau nwyol, i fyny i eira mynyddig hyd at y cluniau, i anialwch tywod du, gan groesi trwy afonydd dŵr toddi rhewlifol, gan orffen dringo bryn dair gwaith uchder Consti - a hynny i gyd ar ôl rhedeg 30 milltir neu fwy dim ond i gyrraedd yna! Dywed fod y dirwedd mor wych fel ei bod yn eich tynnu drwodd i weld beth sydd dros y bryn nesaf neu o amgylch y gornel nesaf. Ac ie, byddai'n ei wneud eto!

Dyn ni i gyd yn diolch i Wil am ei hygyrchedd, ei anogaeth, a'i gyflwyniadau gwych o'i holl waith caled ar y casgliadau unigryw hyn yn ystod ei yrfa hir. Byddwn ni'n eich colli chi. Pan ofynnais iddo pa gyngor byddai'n ei roi i'n gwirfoddolwyr presennol a darpar wirfoddolwyr, mae Wil yn syth yn frwdfrydig am y "cyfoeth o brosiectau diddorol" sydd yn y Llyfrgell, a'i bod yn fater i wirfoddolwyr "ddod o hyd i'r un sydd fwyaf diddorol i chi". Mae'r Llyfrgell, meddai, yn "llawn syrpreisys - felly palu ymlaen a bwrw ati a gweld beth sy'n digwydd, gweld beth sy'n cael ei ddatgudd io!"
A dyna'r nodyn perffaith i orffen arno.



# FFARWEL

Hoffem gymryd eiliad i ddiolch i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi ein gadael y tymor hwn. Rydym yn hynod ddiolchgar am eich cefnogaeth, ac yn dweud ffarwel chwerwfelys...







**MAE ABIGAIL AC ESME WEDI CWBLHAU EU TRYDEDD FLWYDDYN YN Y BRIFYSGOL YN LLWYDDIANNUS AC MAENT YN NESÁU AT RADDIO.**




**LLWYDDODD GWILYM I GAEL CYFLOGAETH.**




**MAE ARNOLD YN CANOLBWYNTIO AR EI ASTUDIAETHAU PRIFYSGOL.**

---

Yn awyddus i ymuno â'n cymuned wirfoddoli? Cysylltwch â ni:

Ebost: gwirfoddoli@llyfrgell.cymru
Ffôn: (01970) 632424